

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCLA@cynulliad.cymru

25 Mehefin 2019

Annwyl Mick,

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 29 Ebrill, addewais ddarparu gwybodaeth bellach am ein cynigion mewn perthynas â'r Comisiwn Etholiadol.

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. Mae hyn yn cynnwys cymhwysedd i ddeddfu ar faterion penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, megis:

- ariannu'r Comisiwn Etholiadol;
- paratoi, gosod a chyhoeddi adroddiadau gan y Comisiwn Etholiadol ynghylch cyflawni ei swyddogaethau; a
- darparu copïau o reoliadau gan y Comisiwn Etholiadol y mae wedi'u gwneud, eu newid neu eu dirymu.

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r gwaith goruchwylio ac adrodd ar waith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig hefyd fod yn gyfrifoldeb i'r Senedd, gan fanteisio ar y trefniadau a nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae adran 27 o Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru) fel y'i cyflwynwyd yn nodi darpariaethau sy'n gosod dyletswydd ar y Senedd i ystyried y trefniadau ariannol a goruchwylio ar gyfer gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

refferenda datganoledig er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio'r trefniadau hynny. Gosodir dyletswydd bellach ar y Comisiwn Etholiadol i ymateb i unrhyw argymhellion sy'n berthnasol iddo trwy osod adroddiad gerbron y Senedd. Rhoddir pŵer hefyd i'r Senedd i wneud darpariaeth mewn Rheolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddwyd iddi gan adran 27 o'r Bil.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ceisio diwygio adran 27 i wneud y trefniadau cyllid ac atebolrwydd rhwng y Senedd a'r Comisiwn Etholiadol yn gliriach. Yn y bôn, ein hamcan ni yw sicrhau bod dyletswydd ar y Senedd i ariannu'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru, ac y dylai'r Senedd oruchwylio gwaith y Comisiwn Etholiadol i'r graddau y mae'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru.

Rydym yn parhau i fireinio ein dull gweithredu o ran y mater hwn mewn trafodaethau â'r Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Cynulliad, gan gysylltu hefyd â Llywodraeth yr Alban. Ein hamcanion yw sicrhau:

- bod y swyddogaethau yr ymgwymerir â hwy'n glir ond bod rhywfaint o ddisgresiwn o ran sut y maent yn cael eu harfer; a
- bod cymaint o gysondeb ag y bo modd rhwng y trefniadau yng Nghymru a'r rhai yn yr Alban, er mwyn helpu'r Comisiwn Etholiadol â'r gwaith cynllunio a chyflawni.

Gan fod hwn yn faes cymhleth o'r gyfraith a chan fod trafodaethau manwl ar y gweill, nid wyf mewn sefyllfa i allu cadarnhau ffurf derfynol y gwelliannau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n hyderus y bydd y gwaith wedi'i gwblhau mewn pryd i allu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2.

Yn amodol ar y cafeatau yr wyf wedi'u nodi, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol imi nodi'r hyn sydd gen i mewn golwg ar hyn o bryd o ran strwythur y gwelliannau Rwy'n rhagweld, gan ddibynnu ar ragor o ystyriaeth a chynngor cyfreithiol, y bydd y gwelliannau yn ceisio:

- creu un o Bwyllgorau'r Senedd (Pwyllgor y Senedd), dan gadeiryddiaeth y Llywydd, a fydd yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru. Ni fydd rhagor o fanylion ynghylch strwythur Pwyllgor y Senedd yn cael ei gynnwys yn y Bil gan mai mater i'r Senedd yw hwn, drwy broses benderfynu ei Phwyllgor Busnes a/neu ei Rheolau Sefydlog. Mae'r dull hwn hefyd yn cadw hyblygrwydd gweithredol ar gyfer y Senedd;
- Egluro dyletswyddau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru, gan gynnwys:
 - gosod gerbron y Senedd yr elfennau Cymreig o gynllun treigl 5 mlynedd a chyllideb y Comisiwn Etholiadol, yn manylu ynghylch sut mae'r Comisiwn Etholiadol yn bwriadu arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru;
 - gosod adroddiad blynyddol gerbron y Senedd;
 - gosod adroddiadau gerbron y Senedd yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
 - paratoi, diwygio a chyflwyno Codau Ymarfer ar wariant ymgeiswyr i Weinidogion Cymru a fydd, yn eu tro, yn gorfod eu gosod gerbron y Senedd;

- paratoi, diwygio a chyflwyno Codau Ymarfer ar bresenoldeb arsylwyr yn etholiadau datganoledig Cymru: a
- chysylltu â'r Senedd am safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac adrodd ar y safonau perfformiad hynny mewn perthynas ag etholiadau datganoledig Cymru.

Rydym hefyd yn ystyried a yw holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â swyddogaeth y Comisiwn Etholiadol yn etholiadau datganoledig Cymru wedi'u rhoi'n briodol i Weinidogion Cymru.

Nid yw'n fwriad gennyf y bydd y gwelliannau yn gwneud darpariaeth ar gyfer y mecanwaith ar gyfer ariannu'r Comisiwn Etholiadol yn nhestun y Bil, oherwydd y gellir ac y dylid ymdrin â hyn drwy drefniadau gweinyddol – er y gallai fod angen gwelliannau wedi i'r materion hyn gael eu trafod ymhellach. Yn fy marn i dylai'r trefniadau gweinyddol gynnwys y canlynol, ond yn amodol ar ragor o waith a chyngor cyfreithiol:

- fformiwla cyllido, wedi'i nodi mewn cytundeb rhyngsefydliadol lefel uchel ac wedi'i chytuno rhwng y Senedd, Senedd yr Alban, Pwyllgor y Llefarydd a'r Comisiwn Etholiadol; ac
- ymrwymiad, er y byddai Pwyllgor y Llefarydd yn cadw rheolaeth gyffredinol dros gyllideb a chynllun gwaith y Comisiwn Etholiadol yn eu cyfanrwydd, na fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â Chymru na'r Alban ac y byddai, yn unol â'u dyletswydd statudol newydd, yn rhoi sylw dyledus i argymhellion Pwyllgor y Senedd o ran cymeradwyo'r cynllun 5 mlynedd a'r gyllideb yn derfynol.

Mae'r trafodaethau'n parhau - gan gynnwys rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys y DU - ynglŷn â'r mecanwaith ar gyfer rhoi'r cyllid i'r Comisiwn Etholiadol. Mae dau brif opsiwn yn cael eu hystyried, ac mae'r ddau yn rhagdybio bod y cyllid yn cael ei drosglwyddo o Gronfa Gyfunol y DU i Gronfa Gyfunol Cymru:

- Y Comisiwn Etholiadol yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.
- Cyllid y Comisiwn Etholiadol yn cael ei gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru a'i glustnodi fel rhan o'r cyllid i Gomisiwn Senedd.

Rwyf yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ddatblygiadau. O gofio agweddau ariannol y gwaith hwn, rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Rwyf hefyd yn anfon copi at y Llywydd, at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac at Bennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru.



Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister